## ATODIAD 2b - BIDIAU CYFALAF

## BIDIAU CYFALAF 2024/25

| | Teitl y Bid | Manylion y Bid | Swm a argymhellir (£) |
|---|---|---|---|
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | |
| Cyf 1 | Maes Parcio Dinas Dinlle | Mae’r Gwasanaeth wedi llwyddo gyda chais am arian grant gan Lywodraeth Cymru o £300,000 i wneud gwelliannau i faes parcio Dinas Dinlle. Mae gan y gwasanaeth £95,000 o arian cyfatebol ar gyfer ariannu’r gwaith, ond mae angen £50,000 pellach i gwblhau’r gwaith.<br><br>Byddai'r gwelliannau arfaethedig yn gwneud y maes parcio yn fwy hygyrch a diogel. | 50,000 |
| Cyf 2 | Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd) | Mae'r gronfa yn galluogi grwpiau cymunedol a gwirfoddol i ddechrau cynllunio prosiectau, cwblhau prosiectau cyfalaf bach neu gydariannu cynlluniau mawr. Derbyniwyd 64 o geisiadau i’r gronfa yn 2023/24, bu modd cyllido 23 o'r cynlluniau o'r arian ar gael.<br><br>Mae'r prosiectau a ariannwyd trwy'r Gronfa yn 2022/23 yn cynnwys adfer ac ailagor toiledau cyhoeddus Llandderfel, datblygu Neuadd Ogwen, hwb gofal plant yn Frongoch, Y Bala, ystafelloedd newid Clwb Pêl Droed Penrhyndeudraeth, Menter Ty'n Llan, hwb creadigol Nyth ym Mangor a Llety Arall yng Nghaernarfon. | 50,000 |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | | |
| Cyf 3 | Ystafell Cofrestrai | Yn 2023, bu i Swyddog Cydymffurfiaeth y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol ymweld â'r Cyngor gan roi rhybudd o ddiffyg cydymffurfiaeth, nad yw’r storfa bresennol yn cyrraedd safonau isafswm o ran atal tân / llifogydd.<br><br>Mae cynllun arfaethedig i sicrhau cydymffurfio gyda'r gofynion o ran storio'r wybodaeth yn ymwneud â genedigaethau, marwolaethau, priodasau a seremonïau. | 50,000 |
| **PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC** | | | |
| Cyf 4 | Afon Cadnant – Uwchraddio sgrin cylfat | O ganlyniad i ddiffyg yn sgrin cylfat Afon Cadnant, mae risg o lifogydd i hyd at 113 eiddo, gyda chanran sylweddol o dref Caernarfon hefyd o dan fygythiad o lifogydd os bydd difrod sylweddol i gylfat yr afon sy’n rhedeg o dan ganol y dref.<br><br>Cais am 15% tuag at gostau’r prosiect, gyda grant Llywodraeth Cymru'n ariannu 85% o'r gost. Os yn llwyddiannus gyda’r fid i Lywodraeth Cymru, anelir dechrau'r gwaith yn ystod yr haf 2024. | 30,000 |
| Cyf 5 | Prosiect Lliniaru Llifogydd Bontnewydd | Risg o lifogydd i hyd at 80 eiddo.<br><br>Cais am 15% tuag at gostau’r prosiect, gyda grant Llywodraeth Cymru'n ariannu 85% o'r gost. Os yn llwyddiannus gyda’r fid i Lywodraeth Cymru, anelir dechrau'r r gwaith yn ystod yr haf 2024. | 75,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyf 6 | Strategaeth Parhad Mynediad Dros Yr Aber | Difrod ar hyd y Foryd Caernarfon wedi cynyddu'r risg o golli'r lôn yn y tymor canolig.<br><br>Mae strategaeth yn edrych ar gynllun peilot i gyflawni rhaglen sydd wedi ei amlinellu yn y Cynllun Rheoli Traethlin 2. Gan asesu opsiynau hir dymor cynaliadwy ar gyfer cynnal mynediad i eiddo, busnesau a chyfleusterau hamdden a llesiant. | 50,000 |
| Cyf 7 | Gwelliannau Depo Ffordd Bala | Ystafell ar gyfer hyfforddiant angenrheidiol a chyfarfodydd tîm i'r Gweithlu Priffyrdd yn Depo Ffordd Bala, Dolgellau. Ac addasiadau eraill yn dilyn diweddariad i bolisi cerbydau'r Cyngor. | 45,500 |
| Cyf 8 | Uwchraddio Swyddfeydd a Depo Afonwen | Cais i ariannu:<br>1) System wresogi - angen uwchraddio'r system i arbed ynni a bod yn gost effeithiol.<br>2) Estyniad i'r storfa peiriannau - angen lle sych dan do i gadw dau beiriant Phoenix, sef cerbyd sy'n ail wynebu'r ffyrdd.<br>3) Uwchraddio Swyddfeydd Afonwen - uwchraddio'r gegin a'r dodrefn, adnewyddu desgiau, drws newydd i'r brif fynedfa ac addasiadau i hwyluso mynediad megis ramp.<br>4) System Stakrak i storio cyfarpar yn yr iard - cadw nwyddau fel pibellau yn ddiogel a chreu mwy o ofod. | 57,050 |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | |
| Cyf 9 | Gweithdai Anabledd Dysgu | Mae gwaith sylweddol trydanol ac awyriad angen ei wneud i weithdai'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu er mwyn sicrhau diogelwch gweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio'r peiriannau neu'n gweithio o fewn yr ystafelloedd.<br><br>Mae angen:<br>• Gwaith awyriad yng ngweithdai Canolfan y Gwystl a Melin Glynllifon (5 peiriant).<br>• Gwaith trydanol yng ngweithdai Canolfan y Gwystl a Melin Glynllifon.<br>• Hyfforddiant peiriannau ar gyfer gweithwyr perthnasol Canolfan y Gwystl, Felin a Gweithdy Bach Glynllifon a Dolfeurig. | 20,000 |
| | | **CYFANSWM BIDIAU CYFALAF** | **427,550** |